# Gwella Bywydau Trwy Bêl-droed

Strategaeth Llawr Gwlad Cymdeithas Bêl-droed Cymru (CBDC) 2024-30



## Gweledigaeth

Pêl-droed yn gwella bywydau ym mhob cymuned

## Cenhadaeth

Gyda'n gilydd byddwn yn creu cymunedau cryfach, iachach sy'n fwy cysylltiedig

## Nodau Strategol

- Tyfu, cefnogi a datblygu pobl trwy bêl-droed
- Clybiau pêl-droed cymunedol cynhwysol a chynaliadwy
- Gwella ymddygiad a threchu camdriniaeth a gwahaniaethu
- Cynghreiriau modern a hyblyg
- Tyfu a chynnal nifer y bobl sy'n chwarae pêl-droed
- Mynediad at gyfleusterau cynhwysol o ansawdd

## Galluogwyr

- Data a Mewnwelediad
- Partneriaethau Cryf
- Buddsoddiad
- Cysylltu trwy Gyfathrebu a Marchnata
- Cynhyrchion Digidol a Thechnoleg

## Gwerthoedd

- Rhagoriaeth
- Parch
- Teulu

# GWELEDIGAETH

Pêl-droed yn gwella
bywydau ym mhob cymuned.



# CENHADAETH

Gyda'n gilydd byddwn yn creu cymunedau cryfach, iachach sy'n fwy cysylltiedig.









NODAU

# Nodau Strategol

## 1



Tyfu, cefnogi a datblygu'r bobl sy'n darparu pêl-droed cymunedol ar y cae, ac oddi arno.

## 2



Datblygu clybiau pêl-droed cynhwysol a chynaliadwy sy'n gwella bywydau eu cymuned.

## 3



Cymryd camau cadarnhaol i wella ymddygiad a threchu camdriniaeth a gwahaniaethu mewn pêl-droed gan greu amgylchedd diogel, croesawgar a phositif i bawb.

## 4



Gweithio mewn cydweithrediad â Chymdeithasau Ardal i ddatblygu cynghreiriau modern a hyblyg sy'n diwallu anghenion pêl-droed cymunedol y dyfodol.

## 5



Cynnig cyfleoedd cymryd rhan newydd wedi'u targedu i dyfu a chynnal nifer y bobl sy'n chwarae pêl-droed.

## 6



Sicrhau bod gan bawb fynediad at gyfleusterau cynhwysol a chynaliadwy o ansawdd.

Ewch i Galluogwyr Strategol >

< Yn ôl i'r nodal strategol

# 1 Tyfu, cefnogi a datblygu'r bobl sy'n darparu pêl-droed cymunedol ar y cae, ac oddi arno.

## Prif Amcanion

- Cynyddu nifer ac amrywiaeth y bobl sy'n darparu pêl-droed trwy wella prosesau recriwtio, hyfforddi a chefnogi.
- Lleihau biwrocratiaeth a gwella prosesau i wneud pethau'n haws i'r rheiny sydd eisiau cynnal a threfnu pêl-droed cymunedol.
- Gwella'r gwobrau a'r gydnabyddiaeth ar gyfer gwirfoddolwyr pêl-droed cymunedol.
- Darparu gwell adnoddau a chefnogaeth i'r rheiny sy'n cynnal pêl-droed o fewn ysgolion.
- Darparu cymorth â ffocws i recriwtio a datblygu rhagor o hyfforddwyr benywaidd a rhagor o hyfforddwyr o gefndir ethnig amrywiol.
- Cynyddu nifer y swyddogion gêm sy'n rheoli gemau yn rheolaidd ledled Cymru.
- Darparu addysg a chefnogaeth i sicrhau bod pob un ohonom yn gwybod bod diogelu yn gyfrifoldeb i bawb.



**Prif Fesurau Llwyddiant:**

- Dyblu nifer y gwirfoddolwyr 'oddi ar y cae'.
- Dyblu nifer yr hyfforddwyr benywaidd a/neu o gefndir ethnig amrywiol.
- Cynnydd o 20% yn nifer y gemau llawr gwlad a gaiff eu rheoli gan ddyfarnwyr cymwysedig.

< Yn ôl i'r nodal strategol

# 2

## Datblygu clybiau pêl-droed cynhwysol a chynaliadwy sy'n gwella bywydau eu cymuned.



### Prif Amcanion

- Creu gweledigaeth "Clwb pêl-droed cymunedol y dyfodol" sy'n adlewyrchu tirlun amrywiol Cymru.
- Darparu cymorth i sicrhau bod gan bob clwb pêl-droed yng Nghymru gynllun datblygu addas a chynhwysol.
- Alinio prosesau achredu a thrwyddedu clwb i gefnogi'r weledigaeth 'clwb pêl-droed cymunedol y dyfodol' newydd.
- Cefnogi clybiau i chwarae rhan fwy o ran gwella iechyd a lles eu cymuned.
- Ei gwneud yn haws rheoli clwb trwy welliannau digidol, systemau a chydymffurfiaeth.
- Gwella ymhellach y diwylliant diogelu ym mhob clwb i sicrhau profiad pêl-droed diogel a phositif i bawb.

### Prif Fesurau Llwyddiant:

- 100% o glybiau i fod â chynllun datblygu.
- Arolwg pêl-droed cymunedol – gwella boddhad gweinyddwyr.

< Yn ôl i'r nodal strategol

# 3

## Cymryd camau cadarnhaol i wella ymddygiad a threchu camdriniaeth a gwahaniaethu mewn pêl-droed gan greu amgylchedd diogel, croesawgar a phositif i bawb.

### Prif Amcanion

- Gwella ymddygiad chwaraewyr, rhieni, hyfforddwyr, swyddogion a chefnogwyr o fewn pêl-droed cymunedol trwy raglen addysgu a newid ymddygiad benodol gan CBDC.
- Ei gwneud yn haws adrodd am ddigwyddiadau ar draws pêl-droed cymunedol trwy wella'r broses a chynyddu ymwybyddiaeth o sut i roi gwybod am ddigwyddiadau.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r cosbau presennol sy'n gysylltiedig â digwyddiadau o gamdriniaeth neu wahaniaethu a sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith yn gyson.
- Datblygu proses gyfathrebu clir i rannu canlyniadau achosion o gamdriniaeth neu wahaniaethu.
- Darparu rhaglen o gymorth i'r rheiny sydd wedi dioddef camdriniaeth neu wahaniaethu.
- Cynnal a gwella safonau diogelu cadarn a diwylliant sy'n canolbwyntio ar y plentyn ar draws pêl-droed cymunedol yng Nghymru.



**Prif Fesurau Llwyddiant:**

- Lansio'r ymgyrch newid ymddygiad yn llwyddiannus.
- Nifer y digwyddiadau sy'n cael eu hadrodd.
- Arolwg pêl-droed cymunedol – mesur ymddygiad.

< Yn ôl i'r nodal strategol

# 4

## Gweithio mewn cydweithrediad â Chymdeithasau Ardal i ddatblygu cynghreiriau modern a hyblyg sy'n diwallu anghenion pêl-droed cymunedol y dyfodol.



### Prif Amcanion

- Gwella cefnogaeth CBDC ar gyfer y Cymdeithasau Ardal fel y cytunwyd o fewn yr Adolygiad O Gymdeithasau Ardal 2023.
- Gweithio gyda Chymdeithasau Ardal i wella rheolau, rheoliadau ac arfer cyffredin i'w gwneud yn haws i gymryd rhan mewn pêl-droed cymunedol ar draws cynghreiriau yng Nghymru.
- Datblygu gweledigaeth 'Cynghrair y Dyfodol' sy'n adlewyrchu tirlun amrywiol Cymru, gan nodi safonau gofynnol ac arfer gorau.
- Datblygu gwell cynghreiriau cystadleuol ar gyfer merched ledled Cymru sy'n adlewyrchu twf arwyddocaol y gêm, gan ganolbwyntio'n benodol ar bontio i bêl-droed cynghrair a chynghreiriau merched Dan 14/Dan 16.
- Darparu data, cymorth a chanllawiau perthnasol i Gymdeithasau Ardal a chynghreiriau er mwyn helpu i leihau nifer y dynion sy'n gadael pêl-droed cynghrair.

### Prif Fesurau Llwyddiant:

- Gwell cynghreiriau cystadleuol i ferched Dan 14/ Dan 16.

< Yn ôl i'r nodal strategol

# 5 Cynnig cyfleoedd cymryd rhan newydd wedi'u targedu i dyfu a chynnal nifer y bobl sy'n chwarae pêl-droed.



## Prif Amcanion

- Sicrhau bod gan bob chwaraewr Dan 6 brofiad cynnar diogel, hwyl a diddorol o bêl-droed, sy'n berthnasol i'w hoedran.
- Cynyddu nifer y merched 5-11 oed sy'n profi pêl-droed hwyliog a diddorol tu mewn a thu allan i'r ysgol.
- Lleihau nifer y plant 12-17 oed sy'n gadael pêl-droed tu mewn a thu allan i'r ysgol.
- Cynnig cyfleoedd mwy anffurfiol, hyblyg i oedolion chwarae pêl-droed.
- Datblygu llwybr chwarae anabledd cryfach i gynyddu nifer y bobl gydag anabledd sy'n chwarae pêl-droed cymunedol.
- Cynyddu nifer y cyfranogwyr o gymunedau ethnig amrywiol sy'n chwarae pêl-droed cymunedol.

**Prif Fesurau Llwyddiant:**

- Cynnydd o 50% yn nifer y merched 5-11 oed sy'n chwarae.
- Gostyngiad o 50% yn nifer y chwaraewyr 12-17 oed sy'n gadael y gêm.
- Dyblu nifer yr oedolion cofrestredig sy'n chwarae fformatau pêl-droed hamdden.
- Twf yn nifer y cyfranogwyr gydag anabledd sy'n chwarae pêl-droed.
- Twf yn nifer y bobl o gymunedau ethnig amrywiol sy'n cymryd rhan mewn pêl-droed.

< Yn ôl i'r nodal strategol

# 6 Sicrhau bod gan bawb fynediad at gyfleusterau cynhwysol a chynaliadwy o ansawdd.

## Prif Amcanion

- Cefnogi datblygiad cynlluniau lleol sy'n cysylltu clybiau, cynghreiriau a gweithgareddau hamdden i gyfleusterau addas a nodi blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi.
- Darparu cymorth i wella mynediad at gyfleusterau presennol ar gyfer clybiau pêl-droed cymunedol, cynghreiriau a gweithgareddau hamdden.

Blaenoriaethu cymorth ar gyfer clybiau cymunedol er mwyn helpu i gyflawni gweledigaeth cyfleusterau CDBC:

- Helpu clybiau i greu cynlluniau er mwyn datblygu eu cyfleusterau cartref cynhwysol eu hunain sy'n canolbwyntio ar y gymuned, gan helpu i wella iechyd a lles eu cymuned.
- Manteisio i'r eithaf ar ganolfannau pêl-droed cymunedol a gaifff eu sefydlu:
    - Meysydd chwarae glaswellt artiffisial sy'n darparu gofodau y gellir eu rhannu ar gyfer hyfforddi, gemau a gweithgareddau targed.
    - Parciau gyda nifer o feysydd chwarae glaswellt a blaenoriaeth i ddarparu lleoliadau canolog y gellir eu rhannu ar gyfer clybiau neu gynghreiriau.




**Prif Fesurau Llwyddiant:**

- Buddsoddi £25 miliwn mewn cyfleusterau pêl-droed llawr gwlad.
- Cynnydd yn ansawdd y meysydd chwarae glaswellt a chyfleusterau newid yn seiliedig ar brofiadau chwaraewyr.









# GALLUOGWYR

## Galluogwyr Strategol

1




Ymgorffori dulliau data a mewnwelediad ar draws pêl-droed cymunedol i wella penderfyniadau a mesur effaith.

2



Gwella dylanwad cadarnhaol CBDC trwy bartneriaethau cryf ledled Cymru.

3



Gwella'r defnydd o gynhyrchion digidol a thechnoleg ar draws CBDC, y Cymdeithasau Ardal a'r gêm gymunedol ehangach.

4



Denu buddsoddiad newydd i gefnogi twf pêl-droed cymunedol yng Nghymru.

5




Cynyddu ymgysylltiad gyda'r teulu pêl-droed cymunedol trwy wella cyfathrebu a marchnata.

< Ewch i Nodal Strategol

< Yn ôl i'r Galluogwyr Strategol

# 1 Ymgorffori dulliau data a mewnwelediad ar draws pêl-droed cymunedol i wella penderfyniadau a mesur effaith.



## Prif Amcanion

- Gwella ac ymgorffori'r defnydd o ddata a mewnwelediad i gefnogi penderfyniadau pêl-droed cymunedol ar draws CBDC, a gwella cywirdeb y data a'r mewnwelediad.
- Gwella ein dealltwriaeth o bêl-droed anabledd trwy gasglu data anabledd fel pwynt data gorfodol yn COMET.
- Darparu hyfforddiant a chefnogaeth i alluogi mwy o bobl i ddeall a defnyddio data a mewnwelediad ar draws Cymru.
- Cynhyrchu ystod o adroddiadau mewnwelediad ar gyfer Cymdeithasau Ardal a'r gêm ehangach i lywio cyngor a chefnogi penderfyniadau.
- Darparu cymorth data a mewnwelediad i glybiau, cynghreiriau a phartneriaid i ddangos effaith leol pêl-droed cymunedol.

**Prif Fesurau Llwyddiant:**

- Arolwg Pêl-Droed Cymunedol Blynyddol i geisio mewnwelediad pellach ar draws ystod o amcanion strategol.

< Yn ôl i'r Galluogwyr Strategol

# 2 Gwella dylanwad cadarnhaol CBDC trwy bartneriaethau cryf ledled Cymru.




## Prif Amcanion

- Cefnogi Cymdeithasau Ardal i ddatblygu partneriaethau lleol newydd sy'n cyflawni'r amcanion cenedlaethol a rhanbarthol ymhellach.
- Datblygu perthynas gryfach gyda phartneriaid allanol perthnasol i sicrhau profiadau pêl-droed ysgol o ansawdd i bob plentyn.
- Cydweithio gyda phartneriaid allanol gan gynnwys FIFA, UEFA, Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru, Awdurdodau Lleol a sefydliadau cenedlaethol eraill i gyflawni amcanion strategol ar y cyd.
- Datblygu partneriaethau newydd a phresennol i wella cyfleoedd cymryd rhan hygyrch ledled Cymru.
- Cyrraedd cynulleidfaoedd newydd ledled Cymru ac ymgysylltu â nhw trwy ddatblygu partneriaethau newydd ac arloesol.


**Prif Fesurau Llwyddiant:**

- Cyrraedd nifer o gynulleidfaoedd newydd trwy bartneriaethau ystyrlon.

< Yn ôl i'r Galluogwyr Strategol

# 3

Gwella'r defnydd o gynhyrchion digidol a thechnoleg ar draws CBDC, y Cymdeithasau Ardal a'r gêm gymunedol ehangach.




## Prif Amcanion

- Ei gwneud yn haws trefnu a darparu pêl-droed cymunedol trwy nodi cynhyrchion digidol a thechnoleg sydd ar flaen y gad i gefnogi clybiau, cynghreiriau a Chymdeithasau Ardal.
- Cynyddu nifer y bobl sy'n mabwysiadu ac yn defnyddio system rheoli gemau CBDC (COMET).
- Gwella effaith ac aliniad llwyfannau presennol CBDC.
- Cyflwyno system ddigidol newydd i helpu'r gymuned ddod o hyd i gyfleoedd pêl-droed hamdden a'u harchebu.
- Cynyddu'r defnydd o dechnoleg i helpu mwy o bobl gael mynediad at gyfleusterau pêl-droed presennol.

## Prif Fesurau Llwyddiant:

- Comet: % sy'n ei fabwysiadu a lefelau bodlonrwydd trwy Arolwg Pêl-Droed Cymunedol.
- Twf mewn defnyddwyr ar lwyfannau hamdden / gweithgareddau a archebir.
- Cynnydd yn y defnydd o gyfleusterau trwy dechnoleg.

< Yn ôl i'r Galluogwyr Strategol

# 4 Denu buddsoddiad newydd i gefnogi twf pêl-droed cymunedol yng Nghymru.



## Prif Amcanion

- Gweithio gyda phartneriaid masnachol i gynyddu cyrhaeddiad ac effaith rhaglenni/gweithgareddau cymunedol ledled Cymru.
- Mynd ati'n rhagweithiol i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol fel UEFA, FIFA, Llywodraeth Genedlaethol a Lleol, Chwaraeon Cymru a phartneriaid cenedlaethol eraill i gynyddu'r cyllid sydd ar gael i bêl-droed cymunedol.
- Cefnogi Cymdeithasau Ardal i ddiogelu buddsoddiad lleol newydd sy'n cefnogi blaenoriaethau lleol ymhellach.
- Cefnogi clybiau i sicrhau cyllid lleol newydd er mwyn helpu i gyflawni eu cynllun datblygu.
- Dangos gwerth buddsoddiad cymunedol trwy wella dulliau mesur adenillion cymdeithasol o fuddsoddi.

**Prif Fesurau Llwyddiant:**

- Cynnydd yn y buddsoddiad mewn pêl-droed cymunedol.

< Yn ôl i'r Galluogwyr Strategol

# 5 Cynyddu ymgysylltiad gyda'r teulu pêl-droed cymunedol trwy wella cyfathrebu a marchnata.




## Prif Amcanion

- Cynyddu'r ffocws ar bêl-droed cymunedol trwy ymgyrchoedd cyfathrebu a marchnata CBDC.
- Darparu cymorth ac arweiniad i Gymdeithasau Ardal i wella cyfathrebiadau a marchnata ar draws eu rhanbarthau.
- Cynyddu cyfathrebiadau a chyfryngau cymdeithasol cadarnhaol Cymdeithasau Ardal, Cynghreiriau a chlybiau.
- Datblygu pecynnau marchnata allweddol i'w defnyddio gan glybiau ledled Cymru.
- Sicrhau bod CBDC yn cyrraedd ac yn ymgysylltu â chymunedau mwy amrywiol i wneud yn siŵr bod pêl-droed i bawb.

**Prif Fesurau Llwyddiant:**

- Cynyddu lefel y ffocws ar bêl-droed cymunedol.
- Lefelau ymgysylltu trwy Arolwg Pêl-Droed Cymunedol.



# Diolch!